OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2258 (Cy.222)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*3 Medi 2002*
Yn dod i rym - -	*4 Medi 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 4 Medi 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Cynnydd cyffredinol mewn ffioedd

2.—(1) Mae Rheoliadau 1989, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn cael eu diwygio yn unol â darpariaethau'r Rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10A o Reoliadau 1989(**4**)—

(a) ym mharagraff (5)(b), yn lle "£95" rhoddwch "£110"; a

(**1**) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 303 gan baragraff 10 o Atodlen 13 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), a chan adran 6(6) o Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991 (p. 34). Gweler adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer diffiniad "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1989/193, sydd wedi ei ddiwygio, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 1990/2743, 1991/2735, 1992/1817, 1992/3052, 1993/3170, 1997/37 and 2002/ 1876 (Cy.185).

(**4**) Mewnosdwyd Rheoliad 10A gan reoliad 4 o O.S. 1992/1817.

(b) ym mharagraff (6), yn lle "£190" rhoddwch "£220" ac yn lle "£9,500" rhoddwch "£11,000."

(3) Yn rheoliad 11A o Reoliadau 1989(**5**)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "£35" rhoddwch "£40"; a

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle £190"rhoddwch "£220".

(4) Yn Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraffau 4(1) a 6(2), yn lle "£190" rhoddwch "£220";

(b) ym mharagraffau 7, 7A(**6**) a 7B(**7**)), yn lle "£95" rhoddwch "£110"; a

(c) ym mharagraff 15(2), yn lle "£190", rhoddwch "£220" ac yn lle "£4,750" rhoddwch "£5,500".

(5) Yn lle Rhan II o Atodlen 1 i Reoliadau 1989 (graddfeydd ffioedd), rhoddwch y Rhan II newydd a bennir gan Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn lle Atodlen 2 i Reoliadau 1989 (graddfeydd ffioedd ar gyfer ceisiadau hysbyseb), rhoddwch yr Atodlen 2 newydd a bennir gan Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**)

Jane Davidson
3 Medi 2002 Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

(**5**) Mewnosodwyd Rheoliad 11A gan baragraff 3 o Atodlen 3 i O.S. 1991/2735 ac amnewidiwyd paragraff (1) gan reoliad 2 o O.S. 2002/1876 (Cy.185).
(**6**) Mewnosodwyd paragraff 7A gan reoliad 6(b) o O.S. 1992/1817.
(**7**) Mewnosodwyd paragraff 7B gan reoliad 5 o O.S. 1992/3052.
(**8**) 1998 p. 38.

ATODLEN 1 Rheoliad 2(5)

PART II OF SCHEDULE 1 TO THE 1989 REGULATIONS

SCALE OF FEES IN RESPECT OF APPLICATIONS MADE OR DEEMED TO BE MADE ON OR AFTER 4 SEPTEMBER 2002

Category of development	*Fee payable*
I. Operations	
1. The erection of dwellinghouses (other than development within category 6 below).	(a) (a) Where the application is for outline planning permission, £220 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £5,500; (b) in other cases, £220 for each dwellinghouse to be created by the development, subject to a maximum of £11,000.
2. The erection of buildings (other than buildings in categories 1,3,4,5 or 7).	(a) (a) Where the application is for outline planning permission, £220 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £5,500; (b) in other cases— (i) where no floor space is to be created by the development, £110; (ii) where the area of gross floor space to be created b the development does not exceed 40 square metres £110; (iii) where the area of gross floor space to be created by the development exceeds 40 square metres but does not exceed 75 square metres, £220; and (iv) where the area of gross floor space to be created by the development exceeds 75 square metres, £220 for each 75 square metres, subject to a maximum of £11,000.
3. The erection, on land used for the purposes of agriculture, of buildings to be used for agricultural purposes (other than buildings coming within category 4).	(a) (a) Where the application is for outline planning permission, £220 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £5,500; (b) in other cases— (i) where the area of gross floor space to be created by the